# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Hydref 2018

Amser: 08.30 - 09.35

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Angela Burns AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Neil Hamilton AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonodd y Dirprwy Lywydd a Darren Millar eu hymddiheuriadau, gan eu bod yn cynrychioli'r Cynulliad yng Nghynhadledd BIPA yn Llundain.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i gofnodion diwygiedig gael eu dosbarthu er mwyn cytuno arnynt.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018 –**

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20 (30 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 28 Tachwedd*

**Dydd Mercher 21 Tachwedd 2018 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Creu'r Diwylliant Cywir (60 munud)
- Dadl ar Ddeiseb P-05-828 Rhagdybiaeth o Blaid Ysgolion Gwledig (60 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 LCM ar y Bil Ifori

Nododd y Rheolwyr Busnes fod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn wedi'i threfnu ar gyfer 6 Tachwedd a chytunodd, y tro yma, nad oes digon o amser i bwyllgor graffu arno'n llawn.

# 5 Pwyllgorau

## 5.1 Cais gan y Pwyllgor Cyllid i drefnu cyfarfod ychwanegol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais.

## 5.2 Cais gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Senedd@Aberystwyth

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais.

## 5.3 Dyrannu llefydd ar bwyllgorau a chadeiryddion rhwng grwpiau

Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol, nododd y Llywydd ei bod am drafod a phenderfynu ar y mater dyrannu cadeiryddion ar wahân i'r drefn i alw ar arweinwyr a llefarwyr.

Ar ôl pleidlais, cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gynnig ailddyrannu Cadeiryddiaeth Pwyllgor Deisebau o UKIP i'r Ceidwadwyr Cymreig. Fodd bynnag, cytunodd y Rheolwyr Busnes i beidio â chyflwyno cynnig am y tro - er mwyn caniatáu trafodaethau rhwng Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig ynghylch y posibilrwydd o ailddyrannu cadeiryddion eraill pwyllgorau.

O ran galw ar arweinwyr a llefarwyr, dywedodd y Llywydd unwaith eto y byddai'n cael eu harwain gan farn mwyafrif y Pwyllgor Busnes o ran y drefn y cânt eu galw. Barn y mwyafrif ymysg y Rheolwyr Busnes oedd na ddylai'r Pwyllgor Busnes geisio pennu sut mae'r Llywydd yn defnyddio ei braint yn y fath fodd, ac felly ymrwymodd y Llywydd i gyflwyno papur yn adolygu holl agweddau ar gwestiynau'r arweinwyr a llefarwyr ar ôl hanner tymor.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gymryd enwebiadau i ethol Cadeirydd newydd y Pwyllgor Cyllid yn y Cyfarfod Llawn fory.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i newid dyraniad amser y gwrthbleidiau o 2:2:1 i 6:5:2.